WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Cyhoeddwyd: Hydref 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 570A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Samantha Clements o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Contents


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae ei drefniadau yn debygol o gynorthwyo gwelliant yn y dyfodol 6

Adroddiad manwl

Perfformiad 10

Y defnydd o adnoddau 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 14

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynlluniau Gwella 2015-16 a 2016-17 Dinas a Sir Abertawe 15

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe o'i berfformiad yn ystod 2014-15 19

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Dinas a Sir Abertawe 2014-15 21

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) ers cyhoeddi'r Asesiad Corfforaethol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol cyfunol ym mis Mehefin 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau allweddol gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Wrth bennu’r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau’r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso’r Cyngor ei hun.

6 Yn ystod 2015-16, ymgymerwyd â gwaith asesu gwelliant o dan ddwy thema: perfformiad a’r defnydd o adnoddau, yn ogystal ag asesu’r cynnydd a wneir o ran mynd i’r afael â’r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiad ym mis Mehefin 2015. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cyngor yn adolygu trefniadau gwneud penderfyniadau mewn ymateb i gynnig ar gyfer gwella a wnaethom yn 2015. Nid oedd newidiadau wedi cael eu hymgorffori felly rydym yn cynnig adolygu trefniadau llywodraethu’n fanylach yn ystod rhan olaf 2016 a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y canlyniad maes o law.

7 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y ‘rheoleiddwyr perthnasol’, isod.

| Enw’r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau |
|---|---|---|
| Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Rheoli Perfformiad | Gwaith dilynol ar weithrediad ac effeithiolrwydd dull datblygol y Cyngor o adrodd ar berfformiad a'i werthuso. Nododd ein hadroddiad fod cynnydd yn cael ei wneud ac roedd yn cynnwys pedwar cynnig ar gyfer gwella y mae'r Cyngor yn gweithredu arnynt. | Gorffennaf 2016 |
| Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. Nodwyd bod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol yn y tymor canolig, ond bod yr arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni'n rhy araf a bod atebolrwydd am gyflawni'r holl gynigion ar gyfer arbedion yn dal heb ei ddatrys. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau gynnig ar gyfer gwella sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor. | Mai 2016 |
| Archwiliad ‘Cynllun Gwella’ Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella bob blwyddyn. Gwnaethom adolygu'r broses o'u cyhoeddi yn 2015, ac eto yn 2016, gan gyhoeddi tystysgrifau yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion statudol. | Mai 2015 a Mai 2016 |

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau |
|---|---|---|
| Archwiliad 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Bob blwyddyn, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol. Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd y Cyngor ei adroddiad ar ei berfformiad yn ystod 2014-15. Gwnaethom adolygu'r adroddiad a chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion statudol. | Tachwedd 2015 |
| Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfrifon | Adolygiad o ddatganiadau ariannol y Cyngor, a ddaeth i'r casgliad eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn. | Tachwedd 2015 |
| Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2014-15 | Adolygiad AGGCC o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant y Cyngor. | Hydref 2015 |
| Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg | Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen. | Rhagfyr 2015 |

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae ei drefniadau yn debygol o gynorthwyo gwelliant yn y dyfodol

8 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliannau yn ystod 2016-17. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd clir o ran datblygu ei drefniadau rheoli perfformiad ac mae'n deall yr hyn sydd angen ei wneud i fireinio gweithgareddau ymhellach.

b Mae’r Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol yn y tymor canolig, ond mae’r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni’n rhy araf ac mae atebolrwydd am gyflawni’r holl gynigion ar gyfer arbedion yn dal heb ei ddatrys:

- mae’r Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol yn y tymor canolig ac mae’n deall yr arbedion ariannol cyffredinol sy’n ofynnol, ond nid yw’n cyflawni arbedion penodol mor gyflym â’r bwriad;
- mae rheolaethau ar waith i reoli’r rhan fwyaf o weithgarwch ariannol y cyngor ond mae diffyg eglurder o ran cyfrifoldeb am gyflawni rhai targedau ar gyfer arbedion yn gwanhau’r rheolaeth gyffredinol; ac
- mae trefniadau llywodraethu ariannol ar waith ond cânt eu gwanhau gan ddiffyg atebolrwydd am gyflawni rhai targedau ar gyfer arbedion.

## Cynigion ar gyfer gwella

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a’r heriau y mae’n eu hwynebu, byddai’n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i’r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy’n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae’n rhaid i’r Cyngor baratoi ymateb i’r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Ceir materion â llai o flaenoriaeth, sef ‘cynigion ar gyfer gwella’, yn ein hadroddiadau eraill. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyfanswm o chwe chynnig ar gyfer gwella mewn dau adroddiad. Byddwn yn parhau i fonitro’r ffordd y caiff y cynigion ar gyfer gwella eu rhoi ar waith yn ystod ein gwaith archwilio perfformiad yn y dyfodol.

| Perfformiad |
|---|
| **C1 Gwella effeithiolrwydd trefniadau gwneud penderfyniadau drwy wneud y canlynol:**<br>• adolygu effeithiolrwydd pob grŵp gorchwyl a gorffen, pwyllgor rheoli a bwrdd gwella a'u goblygiadau o ran adnoddau; ac<br>• egluro cyfrifoldebau am elfennau o berfformiad. |
| **C2 Gwella'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau allanol ar berfformiad drwy wneud y canlynol:**<br>• datblygu gwefan y Cyngor; ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr er mwyn pennu'r ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adrodd ar berfformiad, a chymryd camau i wella trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau cyhoeddus;<br>• sicrhau bod adroddiadau perfformiad yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy asesu pa mor hawdd ydynt i'w darllen a'u deall; ac<br>• asesu costau a buddiannau unrhyw gyfleoedd i gyfleu gwybodaeth am berfformiad gan ddefnyddio fideo, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau rhyngweithiol. |
| **C3 Gwella trefniadau cynllunio busnes gwasanaethau drwy wneud y canlynol:**<br>Datblygu pecyn adnoddau cynllunio gwasanaethau'r Cyngor ymhellach er mwyn iddo wneud y canlynol:<br>• rhoi mwy o eglurder ynglŷn â blaenoriaethau gweithredol a nodi arbedion cyllidebol penodol;<br>• datblygu set briodol o ddangosyddion perfformiad lleol llai sydd â ffocws mwy pendant ac sy'n fwy cynrychiadol a seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer pob gwasanaeth; a<br>• gwella ansawdd a diogelwch data drwy weithredu ar ganfyddiadau adolygiadau diweddar o ansawdd data mewnol, a pharhau i brofi systemau a pholisïau diogelwch data. |
| **Gwella trefniadau rheoli perfformiad drwy:**<br>C4 Cynyddu cwmpas, effaith gadarnhaol ac amlder gwerthusiadau staff ffurfiol. |
| Y Defnydd o Adnoddau |
| **C5** Sicrhau bod amserlenni er mwyn cyflawni cynigion ar gyfer arbedion penodol yn realistig, a gweithredu i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. |
| **C6** Sicrhau bod cyfrifoldeb am gyflawni arbedion arfaethedig yn cael ei neilltuo i wasanaethau rheolwyr penodol. |

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Archwiliad o Gynlluniau Gwella 2015-16 a 2016-17 y Cyngor

11 Ym mis Mai 2015 a mis Mai 2016, gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur Llywodraeth Leol a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r tystysgrifau wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

## Adolygiad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2014-15

12 Ar 23 Tachwedd 2015, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

## Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd clir o ran datblygu ei drefniadau rheoli perfformiad ac roedd yn deall yr hyn roedd angen ei wneud i fireinio gweithgareddau ymhellach

13 Ym mis Mehefin 2015, gwnaethom nodi y dylai'r Cyngor "wella trefniadau adrodd ar berfformiad yn gyflymach er mwyn darparu amrywiaeth cytbwys o wybodaeth hygyrch sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau." Yn 2016, gwnaethom asesu'r cynnydd a wneir gan y Cyngor.

14 Nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd clir o ran datblygu ei drefniadau rheoli perfformiad a'i fod yn deall yr hyn sydd angen ei wneud i wella ei ragolygon ar gyfer gwella ymhellach am y rhesymau canlynol:

- a mae gwelliannau i'r trefniadau Cynllunio Busnes Gwasanaethau yn creu dull gweithredu mwy cyson, cydweithredol a chorfforaethol, er nad yw pob cynllun yn cyrraedd yr un safon uchel;
- b mae gwelliannau i drefniadau rheoli perfformiad yn helpu i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol er bod angen gwella gwerthusiadau perfformiad yn sylweddol;
- c mae gallu'r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth o ansawdd am berfformiad yn gyfyngedig, sy'n lleihau atebolrwydd a chyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned;
- ch mae defnydd effeithiol o wybodaeth am berfformiad yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell mewn rhai meysydd blaenoriaeth allweddol; ac
- d mae cymorth corfforaethol i reolwyr, hunanymwybyddiaeth dda a dull cydweithredol o wella yn hyrwyddo diwylliant sy'n debygol o gynnal gwelliannau yn y dyfodol.

15 Mae'r adroddiad manwl yn cynnwys astudiaethau achos o'r ffordd y mae cynghorau eraill wedi bod yn mireinio trefniadau rheoli perfformiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf a sut mae hyn wedi arwain at ddefnydd mwy effeithiol o'u hadnoddau, sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor fel pwynt cyfeirio ar gyfer mireinio ei drefniadau ei hun.

## Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

16 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Abertawe fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso'r perfformiad yn yr awdurdod.

17 Mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae perfformiad cyffredinol ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn unol â'r perfformiad ledled Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd hefyd wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015, mae perfformiad yn y mesur hwn fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

18 Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella'n gyflym dros bum mlynedd. Yn 2015, mae perfformiad yn y mesur hwn bellach yn unol â'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella'n dda dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae perfformiad yn y mesur hwn gryn dipyn yn uwch na'r meincnod ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae perfformiad mewn perthynas â'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yr un mor wan. Yn 2015, mae perfformiad yn uwch na'r meincnod ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn 2015, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd TGAU A* neu A, neu gymhwyster sy'n cyfateb i hynny, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

19 Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ym mhob un o'r prif ddangosyddion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad y disgyblion hyn yn y trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn uwch na pherfformiad disgyblion tebyg mewn awdurdodau eraill yng Nghymru.

20 Mae presenoldeb wedi gwella'n dda dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae bellach yn unol â'r cyfartaledd yng Nghymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

## Roedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o'r farn bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran moderneiddio ei wasanaethau a'i fod mewn sefyllfa gryf yn seiliedig ar ei berfformiad yn erbyn meysydd ar gyfer gwella

21 Cyhoeddodd AGGCC ei Hadolygiad a'i Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan.

22 Nododd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran rhoi'r rhaglen trawsnewid a moderneiddio ar waith, sef rhaglen y mae wedi bod yn gweithio arni dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n cydnabod yr heriau a wynebir yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a fydd yn dod i rym yn 2016. Mae'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â phwysau galw hirdymor drwy

ddatblygu model gofal cymdeithasol cynaliadwy o ansawdd. Mae gan wasanaethau cymdeithasol weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gynlluniau corfforaethol a fframwaith strategol.

23 Nododd AGGCC hefyd fod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor wedi'u nodi'n glir yn adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynlluniau busnes strategol manwl ar waith ar gyfer gwasanaethau i oedolion a phlant sy'n nodi gwerthoedd, egwyddorion, meysydd ar gyfer gwella a chyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf. Er y bu hwn yn gyfnod o newid mawr, mae'r Cyngor mewn sefyllfa gryf yn seiliedig ar y cynnydd yn erbyn y meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad y llynedd.

24 Roedd AGGCC yn cydnabod bod newidiadau sylweddol wedi digwydd ar lefel uwch swyddogion strategol ac ar lefel tîm gweithredol, gan arwain at waith ad-drefnu strwythurol ac ad-drefnu gwasanaethau ym maes gwasanaethau i oedolion a phlant. Yng nghyd-destun arbedion effeithlonrwydd sylweddol a chyfyngiadau cyllidebol, mae hyn wedi peri gofid i rai grwpiau staff. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael yr effaith leiaf posibl ar y gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion. Mae gweithdy ar y cyd â'r awdurdod lleol a staff y bwrdd iechyd yn cael ei drin er mwyn adolygu a gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn a sicrhau bod cynnydd yn y dyfodol yn seiliedig ar sylfaen gryf.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad

25 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

26 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Cyhoeddwyd yr ymateb ym mis Rhagfyr 2015.

# Y defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

27 Ar 17 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Gwelir y Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

## Roedd y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol yn y tymor canolig, ond roedd yr arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni'n rhy araf ac roedd atebolrwydd am gyflawni'r holl gynigion ar gyfer arbedion yn dal heb ei ddatrys

28 Gwnaethom gynnal ein hasesiad rhwng mis Mai a mis Hydref 2015 a gwneud gwaith dilynol ar y materion a nodwyd yn y gwaith ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15. Canolbwyntiodd y gwaith ar y graddau y cyflawnwyd cynlluniau arbedion 2014-15 a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16, a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

29 Canolbwyntiodd y gwaith ar ateb y cwestiwn canlynol: A yw'r Cyngor yn rheoli gostyngiadau cyllidebol yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol? Gwnaethom ystyried y canlynol:

- a a oedd trefniadau cynllunio ariannol yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn effeithiol;
- b a oedd rheolaeth ariannol yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn effeithiol; ac
- c a oedd trefniadau llywodraethu ariannol yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn effeithiol.

30 Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol yn y tymor canolig, ond bod yr arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni'n rhy araf a bod atebolrwydd am gyflawni'r holl gynigion ar gyfer arbedion yn dal heb ei ddatrys. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a roedd y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol yn y tymor canolig ac roedd yn deall yr arbedion ariannol cyffredinol sy'n ofynnol, ond nid oedd yn cyflawni arbedion penodol mor gyflym â'r bwriad;
- b roedd rheolaethau ar waith i reoli'r rhan fwyaf o weithgarwch ariannol y cyngor ond roedd diffyg eglurder o ran cyfrifoldeb am gyflawni rhai targedau ar gyfer arbedion yn gwanhau'r rheolaeth gyffredinol; ac
- c roedd trefniadau llywodraethu ariannol ar waith ond roeddent yn cael eu gwanhau gan ddiffyg atebolrwydd am gyflawni rhai targedau ar gyfer arbedion.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o  Gynlluniau Gwella 2015-16 a 2016-17 Dinas a Sir Abertawe

## Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Dinas a Sir Abertawe

### Tsytysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- wneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o’r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw’n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b’un a ellir cyflawni’r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o’r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella’r Cyngor yn cynnwys adolygu’r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi’r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o’r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr
Samantha Clements, Arweinydd Archwilio Perfformiad

## Archwiliad o Gynllun Gwella 2016-17 Dinas a Sir Abertawe

### Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Abertawe, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 17 Mawrth 2016, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr
Samantha Clements, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Dinas a Sir Abertawe o'i berfformiad yn ystod 2014-15

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) o'i berfformiad yn ystod 2014-15, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 29 Hydref 2015, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr
Samantha Clements, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Dinas a Sir Abertawe 2014-15

Mr Jack Straw
Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe SA1 3SN

Annwyl Mr Straw

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Dinas a Sir Abertawe 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas

Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2015, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 21 Medi 2015.

## Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae'r ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2015.

## Nid yw'r gwaith a wnaed hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol

Bydd adroddiad manylach ar waith ardystio grantiau yn dilyn yn 2016 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Kevin Wililams
**PricewaterhouseCoopers LLP**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Y Cynghorydd Rob Stewart

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru